# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# 2021-22




**Cymeradwywyd gan y Cyngor 26 Ionawr 2023**

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol ..... 3
2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu ..... 5
3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22 ..... 7
4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi ..... 37
5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022) ..... 43
6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023 ..... 68
7 Casgliad ..... 74
8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ..... 74

## 1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion (‘y Cyngor’) yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a’i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae’r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac mae’n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â’r heriau sydd o’i flaen ac yn manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *‘yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy’n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a’n cymunedau’* a bwriedir gwireddu’r weledigaeth trwy gyflawni’r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu’r Economi;
2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â’n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy’n egluro’r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a’r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i’r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol, sy’n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn grym i raddau helaeth ac mae’r Cyngor yn parhau i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yr adrannau hyn o’r Ddeddf a chydymffurfiaeth gydag adrannau o’r Ddeddf nad ydynt mewn grym eto.

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cymeradwywyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn wreiddiol gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 a chymeradwywyd fersiwn wedi'i ddiweddaru gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Adolygwyd y Cod 2022/23 ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.

Mae Fframwaith Llywodraethu y Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

- A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid
- C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd
- E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
- F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn
- G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu

Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Bryan Davies**<br>**Arweinydd y Cyngor** | **Mr. Eifion Evans**<br>**Prif Weithredwr** |
| Dyddiad: 26/01/2023 | Dyddiad: 26/01/2023 |

## 2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor, ac roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol ynddo: Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, roedd y

Swyddog Monitro;  y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol;  y Swyddog Llywodraethu;  y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd;  y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wedi cymryd rhan.  Yn dilyn y gweithdy, bu cyfle pellach i'r sawl a oedd yn bresennol i ystyried dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor a bu cyfle i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd;  y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth;  y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio;  y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael;  a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid, i ystyried y ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 1/2 | Annerbyniol – angen gweithredu'n syth |
| 3/4 | Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis) |
| 5/6 | Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis) |
| 7/8 | Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau |
| 9/10 | Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach |

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd.  Cyflwynir y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Ionawr 2022.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;  a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2021/22 ym mis Mai 2022, gan gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mehefin 2022.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Mae cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi arferion effeithiol o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae Swyddog Adran 151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

## 3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22.

### A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad. Yn ogystal, Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).

- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (sy'n cael ei adolygu'n sylweddol ar hyn o bryd), sydd ar gael gyda'r holl bolisïau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Rhoddir darpariaeth ymsefydlu a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn destun adolygiad ar hyn o bryd).
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sail modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a Gwasanaethau Llywodraethu ac Archwilio Mewnol ('IA') sy'n gweithio gyda Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.
- Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau ac anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt, mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau ac mae gweithgarwch adrodd yn mynnu bod cyngor ariannol a chyfreithiol/goblygiadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol. Mae eitemau yr adroddir amdanynt i Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau amdanynt trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor ariannol a chyfreithiol, y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Yn ogystal, mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Adolygiad Datblygiad Personol.
- Cymeradwyaeth unigol o ran cydymffurfiaeth.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, a adolygir gan MO ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.
- Mae MO yn dosbarthu nodyn atgoffa ynghylch datganiadau budd/lletygarwch i Staff bob chwarter.
- Mae datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd ac mae Cofnodion yr holl bwyllgorau yn cynnwys Datganiadau Budd-Swyddogion ac Aelodau.
- Nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet, MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau Prif Swyddogion bob blwyddyn ac yn rhoi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, gan gynnwys cynghori Prif Swyddogion yn y Grŵp Arweiniol. Hysbysir Prif Swyddogion trwy gyfrwng diweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu buddiannau a Lletygarwch ac anfonir nodyn atgoffa at Brif Swyddogion.

- Datganiadau Buddiannau blynyddol Prif Swyddogion a'u hymrwymiadau parhaus i ddatgelu buddiannau. Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.
- Cyhoeddwyd diweddariad i'r cyngor am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2021 ac ar 20 Gorffennaf 2021 ar CeriNet, hefyd ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 ar gyfer busnesau (Diweddariad newyddion a gyhoeddwyd ar 8.1.2021) a dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r MO.
- Datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd, cyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:
  - Contractwyr;
  - Llywodraethwyr Ysgol;
  - Clercod cynghorau Tref a Chymuned;
  - Aelodau cynghorau Tref a Chymuned;
  - Llywodraethwyr Ysgol.
  - MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan:
  - Swyddi cyfarwyddwyr; a
  - Chyflogaeth arall
    Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.
- Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Mae hyn bellach yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyhoeddwyd llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.
- Mae cyfatebiaeth NFI yn amlygu Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau y maent wedi cael cyswllt gyda'r Cyngor – bydd IA yn ymchwilio i unrhyw achos o beidio datgan ac yn adrodd amdano i MO.
- Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddaru.
- Ffurflenni Goddefebau wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau wedi'u llenwi (2020).
- Rhaid i Athrawon a Swyddogion Cymwys Proffesiynol fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.
- Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.
- Darparir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr ar gyfer Staff.
- Mae'r Llawlyfr i Gyflogeion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Gyflogeion ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol.
- Mae MO yn dosbarthu diweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, a'u rôl nhw yw pennu'r achosion honedig o dorri'r amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.

- Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella safonau ymddygiad Aelodau a gweithrediad y Cod Ymddygiad i Aelodau. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys:
  - Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;
  - Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.
  - Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.
- Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Materion ynghylch ymddygiad a safonau aelodau a ystyrir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion APW a Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Adroddwyd Adroddiad Pwyllgor Moeseg a Safonau Blynyddol i'r Cyngor ym mis Hydref 2021.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Cynhelir Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg ar hyn o bryd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Mae'r Cabinet wedi adolygu a chymeradwyo'r weledigaeth hon ar gyfer y Cyngor ac mae'r weledigaeth yn nodi nifer o Amcanion Strategol dros y tymor hir.
- Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Deialog reolaidd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheolyddion eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.
- Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol gyda Chydbwysedd Gwleidyddol am y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r

Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Mae'r Gweithgor Trawsbleidiol am y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21, 19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. MO/Swyddog Llywodraethu i adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu camau gweithredu a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gwneud penderfyniadau.
- Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i nodi'n glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Mae dogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i diwygio. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol yn diffinio ceisiadau sy'n bwysig yn strategol ac yn geisiadau cynllunio 'o bwys'.
- Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol yn mynd i'r afael â'r trefniadau mewn perthynas ag aelodau wardiau lleol yn annerch y Pwyllgor.
- Mae Protocol Arferion Da i Gynghorwyr ar Bwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i gynhyrchu ac wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Mae Cynllun Dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a rhai o bwys.
- Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau y mae'n rhaid eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
- Mae grŵp 'callio' wedi'i sefydlu o fewn Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, o'u cymeradwyo, fod yn wyriad sylweddol o'r polisi.
- Bydd penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion ac nad ydynt yn bodloni meini prawf y rhestr wirio sy'n cael ei datblygu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses AMB a'u hadrodd i'r gweithdrefnau archwilio mewnol.
- Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Egwyddorion Diogelu Data a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob Aelod (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys GDPR) yn dilyn Etholiadau Mai 2022.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (rhwng mis medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe'i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 o'r rhain wedi gwneud hynny yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl at ei gilydd, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael hefyd). Rhoddwyd nodiadau atgoffa i Staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwl eto, ac mae Grwpiau Arwain yn cael adroddiadau achlysurol.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Cheredigion (fe'i chynhaliwyd ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd cynnal

cynhadledd debyg gan Gynghorau Gogledd Cymru yn 2021 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid.

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad o'r broses DLIB.
- Mae IA yn adolygu ac yn adrodd am y broses bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu a chan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.
- Adroddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd.
- Cyflwynwyd Strwythur Llywodraethu Covid-19 gan y Cyngor, i gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniad Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021.
- Mae'r grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Cyhoeddir Cofnod o Benderfyniadau'r grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro a oedd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dilyn y dyddiad hwnnw).
- Cynhyrchwyd map ffyrdd, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas darparir gan y Cyngor, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig Covid-19, y canllawiau presennol a nifer yr achosion yng Ngheredigion.
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cedwir Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol i Swyddogion ac mae Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol ar gael i gyflogeion ar CeriNet.
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion ar Chontractwyr (diweddarwyd 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.
- MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO'), ac mae'n cynghori'r sawl sy'n Chwythu'r Chwiban, pan fo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. O ran manteisio ar y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl,

42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael).

- Rhoddir sylw i'r holl gwynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021, ei weithrediad a'i gyhoeddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion/argymhellion a gafwyd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol, gan gynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ei gyflwyno i'r Cyngor a'i nodi.
- Cyhoeddir cofnodion yr holl bwyllgorau ar Wefan y Cyngor. Mae holl agendâu/cofnodion Pwyllgorau yn cynnwys eitem am ddatgelu buddiannau.
- Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor.
- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle y gwneir penderfyniad.
- Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, fe'i cyflwynir i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i cyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Cyhoeddir Cofrestr o Gontractau ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cyflwynwyd Adroddiad am newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (gan gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn:
  a) newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio â chwynion a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021;
  b) cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r
  d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.
- Newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23.9.21. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:
  - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad;
  - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;

- Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) – recriwtio wedi'i gwblhau, ac eithrio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.
- Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun;
-Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg.
-Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol sy'n gallu cadeirio.

- Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a oedd yn cytuno argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022.
- Mae swyddogion megis Archwilwyr Mewnol yn llofnodi datganiad blynyddol am y Cod Moeseg.
- Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Ionawr 2022.
- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a'r modiwl hyfforddiant bwriadedig er mwyn ymateb i'r adborth.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018 a chyflwynir hyfforddiant ynghylch caffael i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio y Cyngor.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Defnyddir meddalwedd fewnol i ôl-wirio taliadau dyblyg drwgdybiedig.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae MO a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys ymlaen llaw ac yn ystod cyfarfodydd ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae MO yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb yr MO, bydd y Dirprwy MO yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn cydymffurfio yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae aelodau pob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae Cynllun gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.

- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn glir ac mae disgrifiadau Rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd y cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIFPA, *Putting Principles into Practice* (2019)).
- Caiff Cylch gorchwyl ei gynnwys yn y Cyfansoddiad a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021.
- Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth gyda Chodau Penodol e.e.  Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO, y mae ganddynt fynediad uniongyrchol i'r CE ac sy'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol.  Mae'r MO a'r Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Ymchwiliadau mewnol, Archwilio Allanol effeithiol.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig ac mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gaiff ei chydlynu gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).
- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal.
- Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).
- Ychwanegir archwiliadau rheoli ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, i archwilio camau rheoli, llywodraethu a risgiau pan fo'r staff yn gweithio gartref.

- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch ail-flaenoriaethu gwaith sy'n angenrheidiol, gan ganiatáu i'r IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran y risg yn y Cyngor.

**B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid:**

- Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) a Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.
- Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.
- Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr Amcanion Llesiant a Gwella eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir agendâu a phapurau ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau wedi'u heithrio).
- Caiff cyfeiriadau e-bost MO a Moeseg a Safonau generig eu creu.
- Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. Yn ogystal, Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cyfansoddiad I Dogfen Rhan 4).
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Mae offer newydd yn cael ei osod yn y Siambr ar hyn o bryd (cwblhau ganol mis Ebrill 2022). Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio a sicrhau eu bod ar gael ar-lein.
- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 Cyfansoddiad) a chymeradwywyd Protocol mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan y Cyngor (Cyfansoddiad M2 Dogfen Rhan 5).
- Mae'r Protocol Arferion Da wedi'i greu er mwyn cefnogi Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.
- Cymeradwywyd offeryn ac arweiniad Asesiad Effaith Integredig ('IIA') i'w weithredu.
- Datblygwyd canllawiau ac offeryn IIA er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol ac maent yn cael eu gweithredu, ac adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 10 IIA i'r

Cabinet yn ystod 2021-22 tan 1.12.2021. Pwyllgorau, sy’n cynnwys ymgynghori.

- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i’r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae’r rhain oll yn cynnwys canlyniadau IIA.
- Asesir yr holl IIA ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy’n cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â’r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio’r IIAs.
- Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i’r pwyllgor Craffu ac i’r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.
- Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.
- Diweddarwyd templed adrodd y Cyngor/Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.
- Pan fo hynny’n briodol, mae eitemau yr adroddir amdanynt er mwyn cael penderfyniadau trwy’r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a gwneir cyfeiriad at y cyngor hwn ym mhob adroddiad.
- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir yr holl adroddiadau blynyddol, Datganiadau o gyfrifon, adroddiadau cynnydd Gwelliant o fewn amserlenni ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae’r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy’n cynnwys dolenni i’r Polisi Ymgysylltu Cymunedol (11 Ionawr 2013), Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori
- Mae’r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o’r ddeddfwriaeth.
- Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.
- Mae Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai’r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle.
- Adroddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl i’r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig, digwyddiadau a grwpiau ymgysylltu gyda phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig.

- Lluniwyd Polisi Ymgysylltu Drafft newydd er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys ymgysylltu digidol. Ymgynghorir am hwn a chytunir arno yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, ‘Siarad, Gwrando a Chydweithio’ wedi cael ei pharatoi. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae’r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (‘BGC’).
- Mae’r gwaith wedi cychwyn ar y broses o baratoi’r asesiad Llesiant Lleol nesaf a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022.
- Ymgynghoriadau 2020-21.
- Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol.
- Lledaenir canlyniadau gweithgarwch ymgynghori a chaiff adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen y Cyngor ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i’r cyhoedd.
- Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael ar Wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Llesiant Lleol BGC, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.
- Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i’r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a’i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae’n cynnwys defnyddio adborth.
- Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys:
    - Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro’r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac
    - Mae’r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor.
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (diwygiwyd Awst 2018).
- Defnyddir cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio safbwyntiau’r cyhoedd ynghylch materion a ystyrir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.
- Oherwydd Covid-19, mae’r Cyngor wedi ymgynghori o bell trwy gyfrwng cynadleddau fideo ac arolygon electronig.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnrwyd Cyngor Ceredigion i’r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau. Mae’r arwyddion a welwyd yn ddiweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.
- Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd.
- Cynhelir prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym.
- Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.
- Mae partneriaethau yn cynnwys:
        - BGC;

    - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
    - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (adolygwyd yn 2019 ac yn destun gweithgarwch Craffu);
    - Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
    - Thyfu Canolbarth Cymru.
- Cwblhawyd yr adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n eistedd dan BGC. Mae'r strwythur partneriaeth newydd wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn gyson.
- Gweithgarwch rheolaidd i adrodd am gyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet.
- Sefydlwyd partneriaethau megis Tyfu Canolbarth Cymru gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru
- Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol.
- Adroddir am fframwaith partneriaeth monitro sy'n adrodd am yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan bartneriaethau sy'n bodoli eisoes i'r Grŵp Arweiniol.
- Rhoddir cyngor i Aelodau a Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol.
- Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol.
- Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio.
- Cynhaliwyd Hunanasesiad o'r Grŵp Gweithredol.
- Mae gofyn i'r holl gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion fod wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.
- Canllawiau ynghylch Brandio Corfforaethol (Mai 2019).
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol (2019-2022).
- Cyflawnwyd cyswllt Cymunedol Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant a gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:**

- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.

- Caiff Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn a'u hadrodd yn adroddiad blynyddol yr amcanion Llesiant a Gwella a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Amlinellir gwybodaeth ynghylch perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi pennu diben a gweledigaeth y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion.
- Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Lleol BGC ym mis Mai 2018.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

  Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
  - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
  - Datblygu canllawiau ac offeryn IIA newydd (cyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau);
  - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
  - Caiff y Cyfansoddiad ei fonitro a'i adolygu yn barhaus;
  - Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
  - Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;
  - Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith Cymdeithasol/economaidd/amgylcheddol;
  - Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac mae wedi cael ei hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor;
  - Rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb, cymunedol a'r iaith Gymraeg am yr holl gynigion ynghylch ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
  - Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â DLlCD
- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys;
  - Cynllun Strategol;
  - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
  - Amcanion Gwella Llesiant
- Mae Polisi Cymunedol ac Ymgysylltu (11 Ionawr 2013) ar gael.
- Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2014 er mwyn darparu adnodd hawdd i'w ddefnyddio i Swyddogion wrth ddatblygu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd gyda'u cymunedau, yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Adroddir diweddariadau am arbedion yn y gyllideb ac am waith y Grŵp Datblygu i'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

- Mae’r broses cynllunio busnes yn cynnwys neilltuo adnoddau a chaiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a’u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy’n cynnwys aelodau’r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o’r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu’r gwasanaeth.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer;
    - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a
    - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).
- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni Busnes a gwasanaeth.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys;
    - Hawliau Tramwy;
    - Priffyrdd;
    - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
    - Thrawsnewid.
- Cymeradwywyd y Strategaeth a’r Polisi Rheoli Risg a’r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau a Rheolwyr Uwch.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i’r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Rheolwyr uwch.
- Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.
- Mae’r Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau’r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â’i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau.
- Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella y Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i’r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a’i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy’n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe’i ddefnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy’n cynnwys Strategaeth Buddsoddiad Cyfalaf hefyd.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â Strategaeth Caffael 2018-2022 y Cyngor.
- Mae canllawiau ac offeryn IIA ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau.
- Cyhoeddir pob adroddiad a’r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac mae modd eu harchwilio. Mae pob cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi’i heithrio yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Anogir gweithgarwch Craffu cyn gwneud penderfyniadau pan fo modd.

- Y Rhaglen Trawsnewid.
- Mae Rhestrau Cyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael ar CeriNet.
- Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD.
- Cyflwynir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ac adroddiad monitro 2020-2021 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol i'w gymeradwyo, ac ar ôl eu cymeradwyo, fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Safonau'r Gymraeg ac adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg Blynyddol.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ar 27.10.21 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 9/12/21.

**D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:**

- Mae arweiniad ac offeryn IIA ar gael a chyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.
- Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff.
- Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rheolaidd (9.9.2021, 3.6.2021).
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd a chymeradwywyd y fersiwn cyfredol dyddiedig 2021/22 Ymlaen gan y Cyngor ar 5.3.2021.
- Mae offeryn coeden benderfynu ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori.
- Her gyllid ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor.
- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
  - Adroddiad Gwasanaeth y Prif Swyddog Corfforaethol;
  - Bwrdd Perfformiad; a
  - Chyfarfodydd Panel Gweithredol.
- Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.

  - Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.
  - Defnyddir calendr i adrodd terfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau.
  - Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022.
  - Mae gan BGC Ceredigion Gynllun Llesiant Lleol a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant Lleol gan y BGC sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol ac Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r holl brosiectau cydweithio mawr wedi pennu trefniadau llywodraethu a rheoli gan gynnwys rheoli risg.
- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl ac a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).
- Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol er mwyn ffurfioli gweithgarwch datblygu a rheoli prosiectau.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Mae hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried y canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Mae'n helpu i nodi'r gofynion ynghylch cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Fframwaith Cyllideb.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol wedi cael eu diweddaru. Datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog.
- Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.

- Cymeradwywyd Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.
- Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniadau gwasanaeth a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisïau ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adroddwyd amdanynt yn rheolaidd.
- Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

**E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:**

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Rheolwyr Uwch yn cyflwyno yn y sesiynau wyneb-yn-wyneb hyn.
- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Darparir hyfforddiant parhaus i Aelodau a threfnir darpariaeth ynghylch materion penodol e.e. rheoli Trysorlys, a hefyd, cynhelir adolygiad parhaus o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddaru, gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol (defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau) a darparir rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol.
- Cynllun datblygu aelodau.
- Mae paratoadau yn cael eu gwneud ar gyfer (fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet, hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg (rôl), hyfforddiant am Ddyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).
- Cyflawnwyd Datblygiad/Hyfforddiant fel rhan o fanylebion person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion a darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant diweddaru a sgiliau parhaus.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ei gyflwyno wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch ymsefydlu ar gael, ynghyd â'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r llawlyfr Staff.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff, a hefyd, cynigir cyfleoedd i'r rhai sy'n cyflawni Rôl Arwain neu y maent yn dymuno bod yn arweinwyr. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Mae pecyn cymorth cynllunio Gweithlu Strategol yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddiant a dysgu pob maes gwasanaeth.

- Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddiant a datblygu trwy system Ceri.
- Cynllun Perfformiad a Datblygiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn darparu gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.
- Gall yr holl Staff fanteisio ar ddigwyddiadau dysgu a datblygu trwy gyfleuster hunan-wasanaeth Ceri. Yn ogystal, gall rheolwyr archebu lle i Staff ar ddigwyddiadau perthnasol trwy'r cyfleuster Hunan-wasanaeth i Reolwyr.
- Cryfhawyd cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wrth gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer datblygiad Staff mewn themâu allweddol.
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Defnyddio ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
    - Gwella Ysgolion;
    - Iechyd a Gofal cymdeithasol;
    - Porth Agored; a
    - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae Strategaeth Adnoddau Dynol ar gael ar y Fewnrwyd.
- Cyflawnir gwaith cynllunio gweithlu strategol gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cyfrannodd canlyniadau'r pecyn cymorth hwn at y cynllun gweithlu ar gyfer 2017-2022. Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol:
    1. Ymgysylltu a Chyfle;
    2. Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth;
    3. Hyrwyddo gweithlu dwyieithog; a
    4. Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.
- Adroddir diweddariadau am gynnydd y cynllun gweithlu i'r pwyllgor craffu.
- Mae'r strwythur Arwain a Rheolwyr Uwch wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Cynhelir gweithgarwch cynllunio ar gyfer olyniaeth trwy gyfrwng trafodaethau a chamau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ac ni

ellir wastad dangos tystiolaeth o hyn.  Datblygir hyn ymhellach trwy gyfrwng y pecyn cymorth cynllunio gweithlu Strategol.

- Mae cyfarfod ar y cyd o Reolwyr Uwch yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol gan swyddi mewn ffordd glir.
- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) a Swyddogion uwch (rhan 2 Erthygl 2) ac mae Cynllun Dirprwyo (Y Cyfansoddiad Rhan 3.5) yn bodoli ac yn nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir.
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.
- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e.  Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Adolygir Rheolau Gweithdrefnau Contract ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G Cyfansoddiad) a Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn rheolaidd e.e.  diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.
- Mae'r CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Ar 15.10.21, penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLlLC'), sy'n cynnwys disgrifiad o rôl yr Arweinydd (Paratowyd adroddiad er gwybodaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 19.1.21).
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Trefnir Gweithdai Aelodau yn ôl yr angen.
- Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Polisi Ymgysylltu Cymunedol.
- Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Pwyllgor Craffu (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir yn barhaus er mwyn deall eu safbwyntiau a'u barn wrth ddatblygu cynlluniau a/neu strategaethau newydd.  Rhoddir ystyriaeth briodol i adborth cyn cytuno ar fersiynau terfynol.
- Cyflawnir gweithgarwch hunan-asesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.
- Anogir a chynorthwyir aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.

- Gweithredu polisïau Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg a Pholisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff e.e. cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
    - Gwasanaeth cwnsela; a
    - Chyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
    - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
    - Cynllun gofal llygaid;
    - Cynllun talebau gofal plant;
    - Iechyd Da; a
    - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.

**F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:**

- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019 ac mae'r Fframwaith yn cael ei ddiweddaru o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ffurfio strategaethau a chynlluniau, gan ystyried y risgiau a achosir gan bandemig Covid-19
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnig gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd a chyfeirir Trawsnewid a Risgiau i Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd.
- Roedd yr holl Gynlluniau yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
    - Y Cynllun Ariannol tymor Canolig;
    - Cynlluniau Busnes (lefel 1); a
    - Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.
- Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff gweithgarwch rheoli risg ei gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaeth Gwasanaethau unigol.
- Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio yr Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana. Diweddarwyd

templed adroddiadau Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo/asedau a risgiau.

- Mae Perfformiad Corfforaethol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran Risg.
- Diwygiodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r broses o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ('NSI'), PAM a Dangosyddion Lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Gwella a Llesiant a Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 hefyd.
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.
- Cyflawnir gweithgarwch Monitro Risg Prosiectau Penodol a chaiff yr holl Risgiau eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21 ym mis Hydref 2020 (Yn ogystal, cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-2021 gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor ar 15.9.21, a chan y Cabinet ar 5.10.21).
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaeth.
- Asesiadau mewnol ac allanol gan:
    - Archwilio Cymru;
    - Estyn;
    - Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGGC'); Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('ICPO'); a
    - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').
- Asesiadau allanol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad.
- Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – mae ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10.3.2022.
- Mae Gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrics perfformio.
- Mae IA yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS.
- Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).
- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Darparir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol hefyd.
- Mae gofynion adrodd yn mynnu bod goblygiadau/cyngor cyfreithiol ac ariannol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac maent ar gael i'w harchwilio gan gynnwys.
- Dewisiadau ar gyfer argymhellion.
- Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau ar unrhyw adeg a gwahoddir Cadeiryddion Craffu i fynd â materion yn ôl gerbron y Cabinet
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio materion i'r pwyllgor Craffu ac mae'n cael adroddiadau yn ôl.

- Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.
- Cytundeb am y wybodaeth y bydd gofyn ei chael a'r amserlenni
- Mae trefniadau craffu mewn grym a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a chyn gwneud penderfyniadau, sy'n swyddogaeth craffu, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Protocol Trosolwg a Chraffu Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith.
- Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i geisio safbwyntiau'r cyhoedd, a gesglir trwy gyfryngau cymdeithasol a'u rhannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn iddynt eu hystyried.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC.
- Gwaith a gyflawnir gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLlCD.
- Cyhoeddir adroddiadau a hefyd, yr holl agendâu, cofnodion, Blaenraglen Waith a phob Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.
- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau a'r Cabinet e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd, y caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu gwahodd i'w harsylwi law yn llaw â chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad i'w gynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet.
- Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad) a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad) oll wedi cael eu diweddaru. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae IA yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, CORP04 Risg ac mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis.

- Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau IA a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae gan hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth.
- Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau.
- Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt.
- Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu.
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod cyntaf rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021, adroddwyd am y cyfnodau dilynol ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022).
- Darparir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch y sicrwydd a roddir yn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021 a'r Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer 2021/22 wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 6 Mehefin 2022
- Adolygiadau IA dilynol i fonitro gweithrediad y camau gweithredu gofynnol.
- Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19/01/2022) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014).
- Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll.
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Gwrth Dwyll achrededig.
- Mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn dal Tystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').

- Diweddarwyd a chymeradwywyd ‘Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)’ gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe’i hysgrifennwyd mewn perthynas â’r Cod Ymarfer a’i diweddaru i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.
- Mae IA yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach) ac mae’n cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (Cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2021/22 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2022.
- Mae’r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan IA ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o’r Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a’u harbenigedd;
- Pan fo hynny’n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Archwiliwyd taliadau grant Covid-19 cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na’i adfer);
- Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i’r cynllun archwilio, er mwyn gwirio trefniadau rheoli, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref
- Cymeradwywyd DLlB 2020/21 gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda’r Datganiad o’r Cyfrifon. Mae DLlB yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy’n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae’r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy’n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch IA. Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy’n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a’i adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy’n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd (adolygiad diweddaraf gwblhawyd ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).
- Mae IA yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy’n cyfrannu i’r DLlB.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae’r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.

- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i ‘gysgodi’r’ CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus (gweler pwynt G3.2 isod).
- Mae dau aelod o’r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy’n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod o grŵp y gwrthbleidiau (tan fis Mai 2022, pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).
- Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy’n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod Cyfarfod ar 24.2.2021, o’r newidiadau i’w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â’r newid enw, ynghyd â newidiadau i’r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a’r cyfansoddiad.
- Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.
- Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf am Ddeddf 2021 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, gan gynnwys rhoi diweddariad i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i’r Cyfansoddiad sy’n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:
  - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac
  -Ynghylch swyddogaethau’r Pwyllgor sy’n ymwneud ag:
    - adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;
    - ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;
    - ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;
    - adolygu swyddogaeth delio gyda chwynion y Cyngor; a’r
    - rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022).
- Mae’r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:
    - newidiadau i’r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i’r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i’r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021);
    - newid yr enw i’r ‘Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
    - Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 2/3 Chynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y diffinnir yn y Ddeddf) – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21);
    - Dyletswydd y pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a’i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;
    - Rhaid i’r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;
    - Ni ddylai’r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
    - Yn absenoldeb y Cadeirydd a’r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.
- Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y penderfyniad i newid ei faint o fis Mai 2022 (9).

- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Aelod Lleyg effeithiol ac ystyrir bod Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelod Lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a therfynu cyfnod yr aelodau lleyg presennol yn y rôl. Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.
- Mae manylion aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, rhoddir cyngor gan MO a chyfarfodydd rheolaidd hefyd, yn ôl yr angen rhwng MO a'r Cadeirydd, ac MO, CMIA ac Archwilio Cymru.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol, Archwilio Cymru (gyda a heb Swyddogion)
- Hyfforddiant i Aelodau a rhoddir hyfforddiant/diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu grŵp rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Cymeradwywyd Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 ac mae'r holl bolisïau wedi cael eu diweddaru, gan gynnwys (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019):
  - Polisi Diogelu Data a GDPR;
  - Polisi Diogelwch Gwybodaeth; a
  - Pholisi Rheoli Cofnodion.
- Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifatrwydd mewn perthynas â cheisiadau i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Mae hyfforddiant wedi'i amserlennu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol ar gyfer Aelodau wrth gynllunio.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwlau hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.
- Swyddog Diogelu Data Dynodedig.
- Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
  - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
  - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r Grŵp Diogelu Data Corfforaethol a'r Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau yn ystyried diogelwch Gwybodaeth.
- Gweithredwyd Archwiliad Mewnol Rheolaidd o ofynion a gweithdrefnau Cofrestru diogelu data yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru.
- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.
  ***Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol oddi tanynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.

- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.
- Asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.
- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – fe'i chyhoeddir ar y fewnrwyd bellach.
- Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod blwyddyn 2013-14 ac fe'i diweddarwyd mewn ffordd sylfaenol a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS Gyfredol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2018/2019 ond mae bellach wedi cael ei diwygio i adlewyrchu setliad refeniw amodol 2021/2022 a'i diweddaru i:
    - Adlewyrchu effaith Covid-19
    - Adlewyrchu 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'
    - Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid
    - Rhagweld pwysau o ran y costau yn y dyfodol
    - Adlewyrchu newidiadau data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau

  ac fe'i chyflwynir i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 23,2,2021, gyda'r nod o gyflwyno'r gymeradwyaeth i'r Cyngor ar 5.2.2021.
- Bellach, mae hwn yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r MTFS yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros Gyllid.

## G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Gwefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.

- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a’r Cyngor.
- Cydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg.
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae’r Cyngor yn paratoi i weithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf 2021, sy’n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogi â’r cyhoedd gyda’r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder.
- Cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) 2020, sy’n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd a gofynion ynghylch mynediad i’r cyhoedd/cyhoeddi dogfennau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o’r ddeddfwriaeth.
- Mae Map ffyrdd y Cyngor yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ynghylch y gwasanaethau ddarparir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir.
- Mae’r Cyngor wedi bod allan i dendr ac wedi dyfarnu’r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â’r gallu i ddarlledu’r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer yn ystod y gaeaf.
- Mae’r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â’i Lyfrgelloedd lle y gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy’n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.
- Mae manylion cyswllt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a’r Datganiadau Diddordeb ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae’r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o’r gweithgareddau a’r camau y mae’r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor.
- Cymeradwyaeth briodol.
- Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Perchnogaeth o waith cynllunio a thrawsnewid.
- DLlB.
- Mae DLlB y Cyngor yn dangos tystiolaeth o’r ffordd y mae’n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a’r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae’n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe’i

ddiwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth e.e. wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd pandemig Covid-19. Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a gymeradwyir DLIB e.e. ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (gyda chyfrifon).
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae'n meddu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
- Rhannwyd DLIB gyda chyfrifon, fe'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach. Mae Aelodau a Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r DLIB bob blwyddyn.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad). Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae IA yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol a gyda rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Cyflwynir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a cheir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.

- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro gweithrediad y camau gweithredu cywiro gofynnol.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu yn cael ei datblygu.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion IA yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae rôl CMIA yn cael mynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig Covid-19).
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Cyflawnir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch gweithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 19/01/2022).
- Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae'n cyfrannu i'r DLlB.
- Adroddir am gydymffurfiaeth gyda PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bydd cynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (adolygiad diweddaraf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a dirnadaeth wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus.

- Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan PSIAS.
- Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2022, ynghyd â'r Cynllun gwella.
- Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.
- Cynllun Llesiant a chylch gorchwyl BGC, ac adroddiad blynyddol gan BGC.
- Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.
- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

## 4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin fel rheol (cyflwynwyd ar 6 Mehefin 2022). Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Caiff manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd, eu nodi yn yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid ym Mis Mai 2022, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Darparwyd Adroddiad am Gynllun Gweithredu Cynnydd a Blwyddyn Gyfredol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2021-30/6/2021 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021 a'r cyfnodau dilynol adroddwyd ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022) yn cynnwys y camau gweithredu a gymrwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2021-2022.

Ar 24 Chwefror 2021 hefyd, cyflwynodd CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2021/22 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae'r Archwiliad Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol.

Daeth yr CMIA i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/06/2022 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,

- a'r ffaith bod y rheolwyr (pan ar gael) wedi derbyn y camau a gymrwyd.

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio grantiau EIG a PDG.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: E.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy HOS ICT&CS); a
- Chyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor.

Yn ogystal:

- ITSO yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- IRMO yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o’r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno’r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy’n amlinellu’r ffordd y mae’r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i’r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu’r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu’n addas i’w diben.

**Pandemig y Coronafeirws**

Oherwydd argyfwng pandemig y coronafeirws, caewyd holl swyddfeydd y Cyngor i’r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni’r argyfwng cenedlaethol a’r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i’r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau’r Cyngor a’r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle y bernir bod y penderfyniad yn un brys ac y byddai unrhyw oedi’n niweidio buddiannau’r Cyngor neu’r cyhoedd yn ddifrifol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch ymateb y Cyngor i COVID-19.

Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae Hysbysiad y Cofnod o Benderfyniadau Brys ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor ar gyfer Strwythur Llywodraethu er mwyn gwneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coronavirus-covid-19/governance/). Adolygwyd y penderfyniad, ac ym mis Hydref 2020, Chwefror 2021, Mawrth 2021 a Mai 2021, cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniadau diwygiedig (ar gael ar wefan y Cyngor hefyd).

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur wedi’u cynnal er mwyn trafod pandemig Covid-19 a dulliau o ymdrin yn effeithiol â’r sefyllfa. Mae’r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd sawl gwaith yr wythnos.

Sefydlwyd fforwm y Grŵp Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso gweithrediadau a darparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o’r cychwyn cyntaf, ac roedd yn cynnal cyfarfodydd rhith bob dydd.

Daeth swyddogaeth Weithredol Dros Dro i drosglwyddo pwerau i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 tan nawr, mae’r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn gwneud penderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae llythyr Archwilio Cymru i’r Cyngor ynghylch Adfer yn sgil Covid-19 – Sicrwydd Dros Dro, dyddiedig 19 Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail camau parhaus i fonitro’r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y bwriad, yn rhan o drefniadau

addasu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, i'r Lòg Penderfyniadau gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i adroddiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 a chyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2020, a oedd yn nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Lòg Penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Arwain Covid-19, sef y Grŵp Rheoli Aur.

Cyhoeddwyd y Lòg gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Mae'r penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2020 wedi'u cyhoeddi erbyn hyn hefyd ac mae'r penderfyniadau a wnaethpwyd tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021 yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach na hynny, nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod unrhyw benllanw yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth wedi'i gweithredu mewn tri chyfnod hyd yma:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu rhwng y ddau gyfnod cyntaf a phedwerydd cyfnod, sef y cyfnod adfer. Er mwyn i hynny allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig ar gyfer delio â COVID-19, gan sicrhau ar yr un pryd bod elfennau o'r cyfnod clo yn cael eu llacio'n ddiogel ac mewn dull strwythuredig a reolir. Y tair elfen yw:

**Cyfyngu + Ynysu + Dileu**

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut a phryd y gall ailgyflwyno ei wasanaethau neu sut y byddant yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hynny mewn 'Cynllun y ffordd ymlaen' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn sicrhau eglurder i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau yn syth ar y dechrau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hailgyflwyno ar lwyfan rhith.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell drwy anfon e-bost i'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwylio'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

## 5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022 )

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymrwyd yn ystod 2021-22 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020-2021:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:<br>• Contractwyr;<br>• Llywodraethwyr Ysgol;<br>• Clercod cynghorau Tref a Chymuned;<br>• Aelodau cynghorau Tref a Chymuned;<br>• Llywodraethwyr Ysgol.<br><br>MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, y Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau. | Mae hon yn ddyletswydd barhaus. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys:<br>• Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br>• Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.<br>• Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghylch y flwyddyn honno yn unol â 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000. | EP/LE | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan<br>• Swyddi cyfarwyddwyr; a<br>• Chyflogaeth arall<br>Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.<br>Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion.<br><br>Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, | Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.<br><br>Mae cyngor y Swyddog Monitro i Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn gam gweithredu sy'n parhau, a gyflawnir yn rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system Cerinet.<br>Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd Diweddariad am Ddatgelu Buddiannau a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r Swyddog Monitro.<br><br>Cyhoeddwyd diweddariad am y Datganiad Cyflogeion a'r Gofrestr Buddiannau, gan gynnwys ynghylch | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau COVID-19 ar gyfer busnesau ar 8 Ionawr 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor.<br><br>Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddaru'r Cyfansoddiad.<br><br>Ar hyn o bryd, cynhelir adolygiad sylweddol o'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, a hefyd, y Datganiadau Budd a Lletygarwch ar gyfer Staff. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd a chafwyd mewnbwn gan y Swyddog Monitro, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth Diogelu Data.<br><br>Yn ogystal, anfonwyd Asesiad drafft o'r Effaith ar Ddiogelu Data i'r Swyddog Diogelu Data ei ystyried mewn perthynas â'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiadau, a rhoddwyd | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | diweddariadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 25.11.2021 (rhoddir diweddariad cynnydd pellach yn ystod ei Gyfarfod ar 19.1.2022).<br><br>Ar ôl cwblhau proses DPIA, anfonir y dogfennau drafft at y Grŵp Arweiniol, Undebau Llafur a'r Cyngor.<br><br>Yn ogystal, ystyrir a ddylid cyhoeddi Buddiannau Busnes Prif Swyddogion ar wefannau'r Cyngor, a chynhelir Cyfarfodydd rhwng yr MO, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Diogelu Data a CLO – Pobl a Threfniadaeth. | | |
| A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill | Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-Ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol (Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('WFGA'). | Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu gorfodol ym mis Medi 2017 a than fis Tachwedd 2021, mae wedi cael ei gwblhau gan 2,834 o gyflogeion. O blith y rhain, cwblhaodd 343 y modiwl Cymraeg a chwblhaodd 2,491 y modiwl Saesneg.<br><br>Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi | GE | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | cwblhau'r modiwl e-ddysgu, 40 yn Gymraeg a 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonir nodiadau atgoffa i staff nad ydynt wedi cyflawni'r modiwl eto a bydd y Grŵp Arweiniol yn cael adroddiadau am weithgarwch cwblhau modiwlau e-ddysgu gorfodol o bryd i'w gilydd. | | |
| | Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. | Mae adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen yn dasg barhaus, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ddiwethaf i'r Cyngor yn ystod y Cyfarfod ar 23 Medi 2021, a chyn hyn, yn ystod ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021. Mae Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 15 Chwefror 2021, 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021, 10 Awst 2021 ac 8 | EP/HR | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Tachwedd 2021, a bwriedir cynnal y Cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2022.<br><br>Mae diwygiadau arwyddocaol i'r Cyfansoddiad wedi cynnwys diwygiadau er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weithredu newidiadau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21 (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2021).<br><br>Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC. | | |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu | Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio (cylch | Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Weithgor | EP/AW/HR | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad i'w hadolygu):<br>Mae newidiadau'n cynnwys:<br>- newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;<br>- Yr Aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;<br>-Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac<br>- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio. | Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad ar 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021 a 10 Awst 2021, a wnaeth argymhellion priodol i'r Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad am y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23 Medi 2021. Penderfynodd y Cyngor gytuno i'r newidiadau arfaethedig.<br><br>Cyflwynwyd Adroddiad pellach am newidiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 3 Mehefin 2021, gan gynnwys diweddariadau i'r Cyfansoddiad, gan hysbysu am y gofynion i CJC Canolbarth Cymru i gael Is-bwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad am newidiadau dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n | | Newidiadau ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a Deddf 2021 wedi'u Cwblhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | effeithio ar y Pwyllgor i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021, gan gynnwys recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Yna cyflwynwyd y newidiadau a'r cynigion hyn ynghylch recriwtio i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021, ac fe'u cymeradwywyd ganddo. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad, ynghyd â'r dyddiadau gweithredu perthnasol, gan gymeradwyo:<br><br>a) newid enw y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau ychwanegol yn ymwneud â delio gyda chwynion a pherfformiad y byddent yn dod i rym o 1 Ebrill 2021;<br><br>b) cychwyn ar y broses recriwtio am aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio;<br><br>c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r<br><br>d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person. | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21 Mai 2021, a gytunodd argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Yna, cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a chytunodd y Cyngor ar y cyfansoddiad hwnnw o ran aelodau o 5 Mai 2022. Mae'r broses recriwtio wedi cael ei chwblhau erbyn hyn, a phenderfynodd y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2021 benodi tri ymgeisydd a argymhellwyd gan Banel Dethol y Rhestr Fer.<br><br>Mae'r broses o gyhoeddi cofrestr y penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Mae Lòg Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur, cofrestr penderfyniadau, wedi cael ei | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | • Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig. | chyhoeddi a'i diweddaru bob chwarter, a'i chyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur (ac yna ei chymeradwyo), ac wedi hynny, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (yn fwyaf diweddar ar 1 Rhagfyr 2021 a chyn hyn, ar 16 Mehefin 2021) ac fe'i chyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.<br><br>Cynigiwyd yn y Cyfarfod hwn y dylid cyhoeddi'r Lòg Penderfyniadau yn fwy rheolaidd ac mae MO/Swyddog Llywodraethu yn trefnu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn fwy rheolaidd (cyhoeddwyd penderfyniadau a wnaethpwyd tan 30 Tachwedd 2021 a chyhoeddir penderfyniadau a wnaethpwyd tan 31 Rhagfyr 2021 cyn bo hir (Rhagfyr 2021).<br><br>Yna, cyflwynir y Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystod ei Gyfarfod ar 10 Chwefror 2022. | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | • Gwaith parhaus i fonitro'r niferoedd sy'n dilyn y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. | Mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygiad. Mae unrhyw waith penderfyniadau eraill yn mynd rhagddo, fodd bynnag, yn arbennig, mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i baratoi Cofrestr Gorchymyn Cadw Coed (TPO).<br><br>O ran y niferoedd a fanteisiodd ar y modiwl Chwythu'r Chwiban e-ddysgu Gorfodol, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael)<br><br>Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion Corfforaethol wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd y polisi newydd i'r | | Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion / Canmoliaeth wedi cael ei gwblhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | • Adolygir y polisi Cwynion / Canmoliaeth yn ystod 2020- 2021. | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 23 Medi. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau Cwynion 2021 diwygiedig. | | |
| | Darparir hyfforddiant Moeseg / Twyll. | Bellach, mae'r modiwl hyfforddiant Moeseg / Twyll, a baratowyd ar y cyd â Zurich (yswiriwr y Cyngor), wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Anthony Connolly o Zurich ar 28 Mai 2021 yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol. Defnyddir y sleidiau o'r cyflwyniad fel sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff. Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Llywodraethu Mewnol wedi paratoi cwestiynau ac atebion drafft ar gyfer y modiwl e-ddysgu ac mae wedi darparu'r rhain i'r adran Dysgu a | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu, a byddant yn eu defnyddio fel sylfaen y modiwl.<br><br>Cefnogir hyn hefyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor.<br><br>Mae archwiliad mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol | • Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn mynd rhagddynt. | Fel yr uchod, mae cydymffurfiaeth gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn bresennol), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol. | EP | Mawrth 2022 |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Diweddarwyd y polisi FOI ac EIR.  Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo. | Bwriedir cynnal adolygiad o Gynllun Cyhoeddi FOI yn ystod y flwyddyn nesaf. | LE/AW/MNH | Mawrth 2022 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr | O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur ar hyn o bryd am resymau brys, felly mae'n amhosibl i nifer o wasanaethau | Lluniwyd Tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol ar safle newydd Ceri Net. https://cerinet.ceredigion.gov.uk/our- | AW/LE/MS | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn. | council/community-engagement-consultation-and-partnerships/#<br><br>Mae hyn yn cynnwys dolenni i'n Rhestr Gyfeirio Polisi Ymgysylltu Cymunedol, Ymgysylltu ac Ymgynghori cyfredol, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori.<br><br>Bellach, asesir yr holl Asesiadau Effaith Integredig (IIAs) ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys a yw gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol wedi digwydd, gan gyfrannu at ein proses strategol o wneud penderfyniadau.<br><br>Lluniwyd Strategaeth Ymgysylltu ddrafft newydd i Gyngor Sir | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol yn destun adolygiad a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol. | Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.<br><br>Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth. | | |
| B3.4 Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut yr ystyriwyd eu safbwyntiau | Mae gofyn gwneud gwaith pellach ynghylch monitro adborth a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn rhoi sylw i hyn. | Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.<br><br>Cyhoeddir adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau ar ein tudalen ar y we ynghylch ymgynghoriadau | AW/MS | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.<br><br>http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/<br><br>Cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgysylltu / ymgynghori i'r pwyllgor Craffu a'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu gweithgarwch gwneud penderfyniadau. | | |
| C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael | Cyhoeddi perfformiad y gwasanaeth gan gynnwys data am y costau a gwerth am arian. | Caiff data perthnasol ynghylch costau a gwerth am arian ei ystyried yn gyson mewn adroddiadau gwasanaeth.<br><br>Nid yw data ynghylch costau a gwerth am arian yng nghyd-destun rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth, ar gael i nac yn cael ei ddal gan y Gwasanaeth Perfformiad. | AW | Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau |
| D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth | Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | Fel yr uchod, mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas â gwneud newidiadau deddfwriaethol, megis | AW/EP | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir | | newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).<br><br>Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol yn eu lle mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.  Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | drefniadau priodol yn eu lle (Pwyllgor Craffu, Safonau a Llywodraethu ac Archwilio ar y cyd) – trefniadau sy'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth a'i Rheolau Sefydlog. | | |
| D2.5 Pennu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn nodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei fesur | Mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i gysylltu'r mesurau Perfformiad Lleol gyda holl Amcanion cynllun Busnes lefel 1. | Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.<br><br>Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 a fydd yn eu tro yn trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Yna, bydd gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn. | AW | Mawrth 2022 |
| F3.5 Sicrhau pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol | Adolygu cylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac | Fel yr uchod, mae gwaith yn parhau mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a | EP/AR/HR | Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| sy'n annibynnol ar y pwyllgor gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu: mae'n cynnig ffynhonnell bellach sicrwydd effeithiol ynghylch trefniadau i reoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol y gwrandawir ar ei argymhellion ac y gweithredir yn eu cylch | Etholiadau (Cymru) 2021. Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;<br>-- Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y cânt eu diffinio yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;<br>-Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg;<br>-Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac<br>- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.<br>Mae adolygiad yn mynd rhagddo o faint y Pwyllgor Archwilio.<br>Caiff aelodau lleyg eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried unrhyw ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau | Llywodraethu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn adroddiad yn ystod y cyfarfod ar 24 Chwefror 2021, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r cam o newid enw, a'r newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad.<br><br>Fel yr uchod, cyflwynwyd adroddiad yn cynnig diweddariad am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y Cyfarfod ar 3 Mehefin 2021, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad i'r pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys: | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | (Cymru) 2021 a therfynu cyfnod aelod lleyg presennol yn y swydd. | - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac<br>- Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag:<br>o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;<br>o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;<br>o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;<br>o adolygiad o swyddogaeth y Cyngor er mwyn delio gyda chwynion; a'r<br>o rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022).<br><br>Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo (Cyfarfod 23 Medi 2021) diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Llywodraethu ac Archwilio, yn dilyn argymhellion y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad. Diweddarwyd y Cyfansoddiad gyda chylch gorchwyl er mwyn adlewyrchu dyletswyddau cyfredol y Pwyllgor o Ddeddf 2021, a chaiff dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ar yr dyddiad priodol. | | |
| G1.1 Ysgrifennu a chyfleu adroddiadau i'r cyhoedd ac i randdeiliaid eraill mewn arddull dealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa dan sylw a sicrhau eu bod yn hawdd troi atynt a'u cwestiynu | Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu newidiadau i'w cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth gyfranogi gyhoeddus gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder. | Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd hefyd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau, er ein bod yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.<br><br>Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac mae wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor, a | LE/AM | Mawrth 2022 (– Wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2022) |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â gallu darlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer dros y gaeaf a bydd y system yn ei lle erbyn mis Mawrth 2022. | | |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd Camau gweithredu/argymhellion | Dogfennwyd 'Protocol Archwilio Cymru' ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad AW ac y cyflwynir ymatebion gwasanaeth i LG, GAC ac AW.<br><br>Y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt AW ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion parhaus sy'n ymwneud â llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu. Y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yw'r pwynt cyswllt AW ar gyfer MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad a | EP/AW/SJ | Mawrth 2022 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | materion perfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Protocol (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 9 Medi 2021.<br><br>Yn ogystal, mae'r Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol wedi paratoi taenlen ar gyfer MRFs cyfredol, yn ogystal ag MRFs hanesyddol (a gaiff ei monitro gan y Swyddog Llywodraethu), i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Monitro er mwyn monitro ymatebion MRF.<br><br>Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd misol gydag AW i drafod gwaith parhaus a | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad / Cynnydd hyd yma | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Felly, mae'r camau gweithredu hyn yn parhau, ond mae'r systemau/archwiliadau priodol yn eu lle. | | |

Sylwer: Caiff unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2022-2023

## 6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2022-23:

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny | MO i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan am letygarwch/rhoddion.<br><br>MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:<br><br>• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion<br><br>MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i adolygu Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, MO i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a | Ymgorfffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach. | EP/LE | Mawrth 2023 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | pharhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau<br><br>Diweddaru ffurflenni Goddefebau i Aelodau<br><br>Stopiwyd yr arfarniadau oherwydd Pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn parhau i gael eu gynnal dan drefniant rhith).)<br><br>Cyhoeddir y Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ar ôl iddo gael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo.<br><br>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.<br><br>Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023. | | | |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall.<br><br>Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) | Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023. | Ymgorffori ymhellach Egwyddorion a gwerthoedd Gweithredu Safonol, gan gynnwys eu cyfathrebu. | EP/LE | Mawrth 2023 |
| A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill | Rhoddir diweddariad i'r Grŵp Arweiniol am e-ddysgu a bydd AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol. | Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl er mwyn gwneud penderfyniadau'n effeithiol. | GE | Mawrth 2023 |
| A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig. | Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau.<br><br>Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol | EP/ HR | Mawrth 2023 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | Monitro parhaus o'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu Gorfodol am Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd.<br><br>Adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban. | ymhellach ac arwain drwy esiampl.<br><br>Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach. | | |
| A3.1 Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol | Hyfforddiant pellach i'w roi i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data a hysbysiadau preifatrwydd. Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w rhoi. | Dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith a chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol | EP/LE | Mawrth 2023 |
| B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored | Cwblhau adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. | Dangos ymrwymiad i fod yn agored. | LE/AW/MNH | Mawrth 2023 |
| B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid | Oherwydd pandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r Grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro sydd mewn grym | Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned. | AW | Mawrth 2023 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig | tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.<br><br>Parhau i symud ymlaen gyda'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol. | | | |
| D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir | Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob | Rheoli risg a chydymffurfio gyda deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith. | AW/EP | Mawrth 2023 |

| Mater | Cam gweithredu | Canlyniad | Swyddog Arweiniol | Dyddiad cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. | | | |
| G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol | Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion. | Sicrwydd a rheoli risg | EP/AW/SJ | Mawrth 2023 |

## 7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o’r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu’n dda.

Mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o’r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy’n dod â’r holl godau a’r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Galluogodd hynny y Cyngor i ymateb yn gyflym i’r bygythiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws.

Mae’r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i’w datrys yn ystod 2022/23 ac mae wedi’u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymrwyd o ganlyniad uniongyrchol i’r pandemig eu cofnodi, fel y bo’n briodol.

## 8 Ardystio’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i’r afael â’r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2022/23, a byddwn yn monitro’r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a’r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o’n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai’r pandemig atal rhai o’r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23.